TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# ABBE Tystysgrif ABBE mewn Asesu Ynni Domestig Lefel 3




**Yn gryno**

Mae hwn yn gymhwyster proffesiynol ar gyfer y rheini sy'n dymuno dilyn gyrfa fel Asesydd Ynni Domestig (DEA). Unwaith y byddant wedi cymhwyso, bydd Aseswyr Ynni Domestig yn cofrestru gyda Chynllun Achredu sy'n eu hachredu i gynhyrchu Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPCs) ar gyfer cartrefi presennol unigol (nad ydynt wedi'u hadeiladu o'r newydd). Mae hyn yn unol â deddfwriaeth sy'n gweithredu Cyfarwyddeb yr UE ar Berfformiad Ynni Adeiladau.

Mae'r cymwysterau y mae ABBE yn eu cynnig yn addas ar gyfer paratoi i weithio mewn sector, ar gyfer dechrau eich gyrfa a/neu ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae ABBE yn gweithio'n uniongyrchol gyda chanolfannau hyfforddiant a chyflogwyr i ddatblygu cymwysterau pwrpasol er mwyn diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a'u gweithwyr.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un dros 19 oed, sy'n byw yng Nghymru ac mewn cyflogaeth. Nid yw'r terfyn cyflog o £32,371 yn berthnasol i'r cwrs hwn.

... newydd-ddyfodiaid i'r sector sy'n ceisio dechrau gyrfa ym maes asesu ynni ond hefyd ar gyfer y rheini sydd â phrofiad mewn archwilio eiddo neu dirfesur sy'n dymuno ennill cymhwyster mewn asesu ynni.

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i annog cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant mewn meysydd perthnasol eraill drwy:

Sefydlu fframwaith o addysg a hyfforddiant ar gyfer Aseswyr Ynni Domestig y dyfodol
Galluogi dysgwyr sydd ag arbenigedd mewn meysydd tai eraill i gymhwyso fel Aseswyr Ynni Domestig
Galluogi dysgwyr o'r tu allan i'r diwydiant hwn i gymhwyso fel Aseswr Ynni Domestig

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster hwn mae'n rhaid i ddysgwyr gyflawni'r pedair uned gorfodol canlynol:

Cynnal asesiadau ynni mewn modd diogel, effeithiol a phroffesiynol
Paratoi ar gyfer asesiadau eiddo domestig
Ymgymryd ag archwiliadau ynni
Cynhyrchu ac egluro Tystysgrifau Perfformiad Ynni sy'n berthnasol i eiddo domestig

Darperir cymwysterau a deunyddiau asesu ABBE drwy gyfrwng y Saesneg.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion cyn-fynediad ar gyfer y cymhwyster hwn.

Mae'r cymhwyster hwn ar gael i unrhyw un sy'n gallu cyrraedd y safonau gofynnol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bwriad rhaglen PLA yw darparu cyngor ac arweiniad o safon ar yr yrfa i gyfranogwyr cyn, yn

ystod ac wedi eu dysgu.

Cyn i chi gael eich ymrestru ar eich cwrs sydd wedi'i ariannu gan PLA, bydd cynllun dysgu unigol yn cael ei drafod gyda chi er mwyn sicrhau bod y dysgu cywir wedi cael ei ystyried.

Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth gyffredinol ar y pynciau canlynol:

addysg ffurfiol neu gymwysterau mewn meysydd perthnasol
profiad blaenorol o fewn y diwydiant neu faes
dyheadau gyrfa yn y dyfodol
ymrwymo i'r amser sydd ei angen